

Mae'r crynodeb hwn yn nodi rhai o'n cyflawniadau yn ystod 2018-2019. Ni yw'r corff proffesiynol ar gyfer cyfreithwyr, a gaiff ei redeg gan ein haelodau, ar ran ein haelodau. Rydym yn bodoli i fod yn llais i gyfreithwyr, i ysgogi rhagoriaeth yn y proffesiwn ac i ddiogelu rheolaeth y gyfraith. Rydym yn gweithio i gefnogi proffesiwn gwerthfawr, gan ddarparu gwasanaethau cyfreithiol o'r radd flaenaf er budd y cyhoedd a hyrwyddo rheol y gyfraith.

Mae ein gwaith o ddylanwadu ar lywodraethau a rheoleiddwyr a hyrwyddo ein proffesiwn wrth wraidd yr hyn a wnawn. Ein nod yw bod yn ffynhonnell newyddion cyfreithiol i'n haelodau, cefnogi rhagoriaeth o ran ymarfer a bod yn gyfaill gyrfa iddynt ar bob cam o'u gyrfa.

## Gwnaethom hyrwyddo ein proffesiwn

Gwnaethom hyrwyddo'r proffesiwn yn y wlad hon a thramor yn ein marchnad sy'n newid o hyd. Gwnaethom godi proffil y proffesiwn drwy ein Hymgyrch 'Brand Cyfreithwyr' a'n Gwobrau Rhagoriaeth, gan ddathlu'r gwaith gorau yn y proffesiwn. Gwnaethom annog y bobl orau i ymuno, ni waeth beth fo'u cefndir.

## Gwnaethom ddylanwadu i sicrhau effaith

Ni oedd llais y proffesiwn, yn gweithio i amddiffyn y cyhoedd, y proffesiwn a rheol y gyfraith yn San Steffan, Caerdydd, Brwsel a llywodraethau eraill ledled y byd. Gwnaethom weithio dros ddiwygio'r gyfraith er budd y cyhoedd a'r proffesiwn.

## Gwnaethom roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n haelodau bob amser

Gwnaethom ddarparu'r newyddion, y wybodaeth a'r gwaith ymchwil diweddaraf o'r proffesiwn. Roedd ein gwaith ymchwil yn darparu dealltwriaeth arbenigol, gan lywio gwaith ein byrddau a'n pwyllgorau a helpu i ddylanwadu ar faterion pwysig.

## Gwnaethom gefnogi rhagoriaeth o ran ymarfer

Gwnaethom eich helpu i wasanaethu eich cleientiaid neu'ch cwmni, p'un a oeddech yn gweithio drosoch eich hun, mewn cwmnïau amrywiol neu mewn cwmni cyfreithwyr. Gwnaethom gynig linell gymorth a chyingor, nodiadau ymarfer newydd, pecynnau cymorth, digwyddiadau a mynediad i gymunedau.

## Roeddem yn gyfaill gyrfa i'n haelodau

Ni yw eich cyfaill gyrfa, yn darparu adnoddau er mwyn datblygu eich gyrfaoedd, eich arbenigedd a'ch busnesau. Gwnaethom gefnogi eich gyrfa gyda'r adnoddau sydd eu hangen arnoch wrth i chi ystyried a chynllunio eich camau gyrfa nesaf, megis adnoddau ar-lein, deunyddiau e-ddysgu cryno a digwyddiadau.

## Gwelliannau gweithredol

Gwnaethom barhau i ganolbwyntio ar wella effeithlonrwydd ochr yn ochr â sicrhau gwell rheolaeth a dealltwriaeth o'n costau. Mae gwelliannau i'n technoleg a'n strwythur llywodraethu wedi ein helpu i weithio'n fwy effeithlon ac effeithiol. Mae hyn oll wedi ein helpu i leihau gwariant yn erbyn ein cyllideb a darparu gwerth am arian ar gyfer ein haelodau.

Dim ond detholiad bach yw hwn o'r uchafbwyntiau o'n hadolygiad busnes. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#).

## Rhai enghreifftiau o'r hyn y gwnaethom ei gyflawni yn 2017-2018



Cafodd y Gwobrau Rhagoriaeth y nifer uchaf erioed o **enwebiadau** sef **765**, gyda **865 o bobl yn mynychu'r** seremoni



Gwnaeth y Gwasanaeth Cyngor Ymarfer ymdrin â **27,420 o ymholiadau** gan aelodau a chyflogeion cwmnïau cyfreithwyr



Gwnaeth dros **17m o bobl edrych ar dudalennau** gwefan y Gazette a gwelwyd **cynnydd o 10%** mewn ymwelwyr



Soniwyd amdanom yn gadarnhaol **332 o weithiau** yn y Senedd, cawsom ein gwahodd **8 gwaith** i roi tystiolaeth lafar a chyflwynwyd **46 o gwestiynau seneddol**




Cawsom dros **100 o gyfarfodydd** â chwmnïau ynglŷn â'u cynlluniau wrth gefn ar gyfer Brexit




Gwelwyd **cynnydd o 15%** o bobl yn defnyddio gwefan [lawsociety.org.uk](http://lawsociety.org.uk) a **chynnydd o 13%** o bobl yn edrych ar dudalennau

## Datblygiad profesiynol



Gwnaethom gynhyrchu **74 o weminarau** a dros **95 o bodlediadau**, a gafodd eu ffrydio dros **17,500 o weithiau**

## Menywod yn y gyfraith




Cafodd cynnwys ein hadroddiad Advocating for Change ei gasglu oddi wrth **34 o fenywod rhyngwladol ar fyrddau crwn ym maes y gyfraith** a gynhaliwyd mewn **21 o ddiweddau**, ledled **18 o awdurdodaethau**

## Ymgyrch 'Solicitor Brand'




Gwelwyd ein hymgyrch 'Brand Cyfreithwyr' dros **87.1 miliwn o weithiau** gan deithwyr\* drwy hysbysebion ar drenau, tramiâu a'r tu mewn i drenau tanddaearol

## Ymgysylltu'n ddigidol



Roedd ymgysylltu digidol ar draws llwyfannau gwe cymdeithas y cyfreithwyr wedi arwain at fwy na **63 miliwn o bobl yn edrych ar y tudalennau**

## Canllawiau gwrth-wyngalchu arian



Gwnaeth ein cynhadledd gwrth-wyngalchu arian ddenu **414 o gynadleddwyr cofrestredig**

## Achrediad



Proseswyd **4,879 o geisiadau** am achrediau unigol ac achrediau endidau y llynedd

## Llyfrgell Cymdeithas y Cyfreithwyr



Atebodd tîm y llyfrgell **7,512 o ymholiadau**, cafodd **88,049 o ymwelwyr** a defnyddiodd ein haelodau ein llyfrau dros **9,342 o weithiau**

## Ymgyrch mynediad at gyfiawnder




Cyflwynwyd bron i **40 o gwestiynau seneddol** mewn perthynas â'r ymgyrch cyfiawnder troseddol

## Cefnogi aelodau




Gwnaeth ein canolfan gymorth ymdrin â **133,049 o ymholiadau** gan ein haelodau a'r cyhoedd

## Gweithio ar draws ein rhanbarthau



Gwnaethom ymweld â chwmnïau **134 o weithiau**, cynhaliwyd **211 o ddiwyddiadau** a gwnaeth ein deiliaid swyddi fynychu **96 o gyfarfodydd** neu ddiwyddiadau

## Dylanwadu drwy'r cyfryngau



Gwnaethom fynegi barn ein haelodau mewn cyfryngau darlledu **183 o weithiau**

\* mae hyn yn cyfeirio at nifer y cyfleoedd a gafodd teithwyr i weld yr hysbysebion hyn. Mae teithwyr yn cyfeirio at un daith, felly gallai'r un unigolyn fod wedi gweld yr un hysbyseb sawl gwaith.